**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2006 Rhif 77

# DEDDF GLO BRIG 1958

## GORCHYMYN (DIRYMU) GORCHYMYN (ATAL HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS) GLOFA SMITHS 1979, 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *21 Tachwedd 2006* |
| *Yn dod I rym* | *1 Rhagfyr 2006* |

**GAN FOD** gweithrediadau a awdurdodwyd wedi'u gwneud yn unol â'r awdurdod a roddwyd o dan adran 1(1) o Ddeddf Glo Brig 1958(**1**) (y cyfeirir ati wedi hyn fel "y Ddeddf") ar 10 Medi 1979 ac y cyfeirir atynt yng Ngorchymyn Glofa Smiths (Atal Hawliau Tramwy Cyhoeddus) 1979 (y cyfeirir ato wedi hyn fel "y Gorchymyn Atal") a wnaed ar y dyddiad hwnnw

**A CHAN FOD** Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir ato wedi hyn fel "y Cynulliad Cenedlaethol") wedi'i fodloni nad oes angen, bellach, er mwyn medru gwneud y gweithrediadau a awdurdodwyd, i'r hawliau tramwy barhau i gael eu gohirio gan y Gorchymyn Atal

**A CHAN FOD** yr hawliau tramwy a enwyd yn y Gorchymyn Atal, ac eithrio y rhai a ddilewyd yn llwyr neu'n rhannol gan Orchymyn Cau Llwybr Cyhoeddus (Amrywiol) Bwrdeistref Llanelli (Safleoedd Glo Brig Glofeydd Lambert a Smiths, Carwe – Cwrs Golff Arfaethedig) 1986(**2**), a Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus Cyngor Sir Gaerfyrddin (Llwybrau Troed yng Ngharwe) 2000(**3**) wedi'u hadfer

---

(**1**) 1958 p.69.

(**2**) A gadarnhawyd gan Gyngor Bwrdeistref Llanelli ar 2 Mawrth 1987. Gweler Rhan Un o'r Atodlen i'r Gorchymyn am fanylion y darnau o'r llwybrau sydd wedi'u dileu.

(**3**) A gadarnhawyd gan Cyngor Sir Gaerfyrddin ar 14 Gorffennaf 2000. Gweler Rhan I o'r Atodlen i'r Gorchymyn am fanylion y darnau o’r llwybrau sydd wedi'u dileu.

**YN AWR, GAN HYNNY**, mae'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy arfer ei swyddogaeth o dan adran 15(4) o'r Ddeddf(**1**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn dirymu'r Gorchymyn Atal

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cyllunio a Chefn Gwlad

Dyddiedig

G QUARRELL
Pennaeth y Gangen Polisi Cefn Gwlad ac Arfordir

---

(**1**) Amnewidiwyd adran 15 gan Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (p.63), adran 39(3), Atodlen 8 paragraff 6. Trosglwyddwyd swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 15(4) o'r Ddeddf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).